# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Cwrt Henri**

**Yr Ystafell Ddarllen**
**Cwrt Henri**
**Dryslwyn**
**SA32 7NN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/03/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| **Graddau** | **Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Cwrt Henri yn darparu gofal sesiynol i hyd at 20 o blant rhwng dwy flwydd a hanner a phum mlwydd oed. Caiff ei gynnal mewn neuadd gymunedol ym mhentref Cwrt Henri, Sir Gaerfyrddin. Mae ar agor rhwng 9am a 12.30pm ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Emma Davies yw'r person cofrestredig, a Caroline Williams yw'r person â chyfrifoldeb. Caiff y gwasanaeth ei ariannu i ddarparu gofal i blant tair oed ac o ganlyniad, caiff ei arolygu gan Estyn.

## Crynodeb

| **Thema** | **Gradd** |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

**1. Asesiad cyffredinol**

Gwelsom fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Cwrt Henri wedi setlo'n dda, yn hapus ac yn amlwg yn mwynhau'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar eu cyfer. Mae'r arweinwyr yn gwneud yn siwr bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, gydag amrywiaeth o adnoddau ac ardaloedd ysgogol i chwarae a dysgu ynddynt. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn falch o gynnydd eu plant a'r gwasanaeth a ddarperir.

**2. Gwelliannau**

Mae'r arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad diwethaf.

Maent wedi prynu arwynebedd llawr newydd sy'n addas ar gyfer pob tywydd ar gyfer yr ardal awyr agored.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Dim.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yng Nghylch Meithrin Cwrt Henri yn hapus ac wedi setlo'n dda. Maent yn mwynhau'r amrywiaeth eang o weithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae'r staff yn gwrando arnynt, gallant wneud dewisiadau a chânt gyfleoedd i fod yn annibynnol. Maent yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd a gydag oedolion cyfarwydd.

### Ein canfyddiadau

Wrth gyrraedd, dewisodd y plant yn hyderus o amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael iddynt, a symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, bu'r plant yn chwarae â jig-sos cyn symud i chwarae gyda blociau. Yn yr awyr agored, dewisodd y plant chwarae ar y sleid, yn y cafn tywod neu drefnu'r peli mewn grwpiau o liwiau gwahanol. Gwnaethant ofyn i'r staff ddarllen stori iddynt gan fynd ati i ddewis llyfr. Yn ystod amser cylch, dewisodd y plant pa ganeuon yr hoffent eu canu. Roeddent yn ymddangos yn hapus iawn pan wnaeth pawb ganu'r gân o'u dewis.

Roedd y plant yn hapus ac yn gartrefol yn ystod ein hymweliad. Roeddent yn cyrraedd yn hapus, gan ffarwelio â'u gofalwyr cyn setlo i chwarae. Mae gan bob plentyn ddrôr unigol i gadw eitemau personol yn ogystal â'u gwaith. Dangosodd y plant eu gwaith creadigol yr oeddent am fynd ag ef gartref yn llawn balchder. Roeddent yn gwneud ceisiadau i'r staff, ac roeddent yn hyderus y byddai'r staff yn ymateb yn gadarnhaol. Er enghraifft, penderfynodd un plentyn nad oedd am gymryd rhan mewn gweithgaredd printio â llaw a gofynnodd a allai edrych ar lyfr yn lle hynny. Eisteddodd i lawr ac edrych ar y llyfr nes ei fod yn barod i gymryd rhan yn y gweithgaredd.

Roedd y plant yn garedig ac yn ymddwyn yn dda yn ystod ein hymweliad. Roeddent yn rhyngweithio'n dda â'r plant eraill ac yn cymryd eu tro yn naturiol. Er enghraifft, gwnaethant gymryd eu tro yn yr awyr agored i gerdded ar hyd y trawst cydbwyso a mynd ar y llithren. Rhannodd y plant adnoddau a theganau wrth chwarae yn y cafn tywod a chreu calonnau o does halen ar gyfer Sul y Mamau. Roeddent yn cofleidio'r staff yn ddigymell drwy gydol y sesiwn ac ar ddiwedd y sesiwn cyn mynd adref. Roeddent yn cynnwys y staff yn eu chwarae, drwy gynnig bwyd chwarae rôl iddynt. Roeddent yn gwenu'n hapus pan ymunodd y staff â'u chwarae.

Roedd y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored, gan wisgo eu hesgidiau glaw a neidio i fyny ac i lawr wrth aros. Gwnaethant ganolbwyntio am gryn dipyn o amser yn rolio peli ar ramp a chwarae yn y cafn tywod. Roedd y plant wrth eu bodd pan oedd cymysgedd y toes chwarae yr oeddent yn ei wneud yn glynu i'w dwylo. Gwnaethant osod eu dwylo mewn paent yn llawn brwdfrydedd i greu olion dwylo ar gyfer cardiau Sul y Mamau. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn caneuon actol yn fywiog yn ystod amser cylch, ac yn ystod amser stori gwnaethant gymryd eu tro i agor y fflapiau mewn llyfr am ddeinosoriaid.

Gwnaeth y plant hongian eu cotiau a'u bagiau ar begiau lefel isel yn annibynnol. Cofrestrodd y plant eu hunain drwy osod eu lluniau ar siart. Gwnaethant olchi eu dwylo'n annibynnol wrth gyrraedd y gwasanaeth, cyn cael byrbryd a chyn gadael y gwasanaeth.

Roedd y plant yn cael cyfleoedd da i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd. Daeth y plant â'u byrbrydau eu hunain gyda nhw ac roeddent yn gallu agor pecynnau'n annibynnol. Helpodd cynorthwyydd y dydd i arllwys y llaeth a gosod y bwrdd. Sychodd y plant eu trwynau eu hunain ac roeddent yn gallu gwisgo eu hesgidiau glaw a'u cotiau eu hunain gydag ychydig o help gan y staff. Yn ystod gweithgaredd creu toes halen, roedd y plant yn cael cyfleoedd i arllwys cwpanau o flawd, halen, dŵr a lliwiadau bwyd a chymysgu'r holl gymysgedd. Aeth y plant i estyn y teganau roeddent am chwarae â nhw yn yr awyr agored a thacluso'n effeithlon.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

**Crynodeb**

Mae'r staff yn ymrwymedig i gynllunio gweithgareddau ysgogol ac amrywiol ar gyfer y plant. Maent yn diwallu anghenion y plant yn rheolaidd am eu bod yn eu hadnabod yn dda ac yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig yn ystod y drefn bob dydd.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Caiff rhifau ffôn perthnasol eu harddangos ar hysbysfwrdd y gwasanaeth. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau. Roedd y rhieni a'r staff wedi llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo ar ôl cyrraedd a gadael y gwasanaeth yn ogystal â chyn amser byrbryd. Mae'r gwasanaeth yn hybu bwyta'n iach drwy ddarparu llaeth neu ddŵr i'r plant ac annog y rhieni i ddarparu byrbrydau iach i'w plant. Roedd y staff yn sicrhau bod ymarfer corff yn yr awyr agored yn rhan bwysig o'r sesiwn, ym mhob tywydd. Roedd y staff hefyd yn gwneud yn siwr bod y plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau dawns.

Roedd y staff wedi canmol y plant am ymddwyn yn dda ac wedi ymateb i'r plant a oedd am gael eu cofleidio neu am gael sicrwydd. Roedd y staff yn rhoi sylw i anghenion y plant, er enghraifft, yn sychu trwynau'r plant iau. Roedd y staff yn modelu ymddygiad da drwy siarad yn garedig â'i gilydd ac â'r plant drwy gydol y sesiwn, gan gydymffurfio â'u polisi ymddygiad. Roeddent yn eistedd i lawr ar lefel y plant wrth iddynt chwarae, ac yn sgwrsio â'r plant yn ystod amser byrbryd mewn ffordd ddigynnwrf.

Roedd gan y staff wybodaeth dda am y plant yn eu gofal am eu bod yn gallu disgrifio hoffterau, cas bethau, anghenion a galluoedd unigol y plant. Roedd y staff yn casglu gwybodaeth am y plant yn eu gofal cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth ac roeddent yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i olrhain datblygiad y plant. Roeddent yn cadw tystiolaeth ffotograffig o ddatblygiad pob plentyn ym mhob un o feysydd y cyfnod sylfaen. Cafodd gweithgareddau eu cynllunio o gwmpas thema neu lyfr gyda chyfraniadau gan y staff a'r plant. Roeddent yn sgrinio datblygiad y plant o ran iaith ac yn rhoi mwy o gymorth yn ôl yr angen. Roeddent yn dilyn gweithdrefn y gwasanaeth mewn perthynas â phlant ag anghenion ychwanegol eraill, gan ddarparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Caiff y wybodaeth berthnasol am anghenion ychwanegol ei throsglwyddo i'r ysgol bontio. Roedd y staff yn rhoi adborth ar lafar i'r rhieni a'r gofalwyr ar ddiwedd pob sesiwn, gan grybwyll y gweithgareddau a wnaed, y byrbrydau a fwytawyd a hwyliau cyffredinol.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn olau, yn lliwgar ac wedi'i addurno'n dda. Roedd y plant yn cael gafael ar amrywiaeth dda o deganau, cyfarpar, adnoddau a dodrefn o faint sy'n addas i blant yn hawdd. Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn cael gofal mewn adeilad diogel a glân. Roedd y neuadd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Caiff teganau eu glanhau'n rheolaidd, a chaiff unrhyw deganau sydd wedi torri eu taflu gan roi rhai newydd yn eu lle. Roedd drws y gwasanaeth yn cael ei gadw dan glo ac nid oedd gwesteion heb wahoddiad yn gallu dod i mewn. Roedd llyfr ymwelwyr yn ei le ac yn cael ei ddefnyddio i gofnodi pob ymwelydd â'r gwasanaeth. Roedd cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y larymau tân a mwg yn cael eu profi'n flynyddol. Gosodwyd boeler newydd. Roedd y dyfeisiau trydanol wedi cael prawf PAT. Roedd y plant a'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, ac roedd cofnodion cywir yn cael eu cadw. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored yn cael eu cynnal, ac roedd risgiau'n cael eu nodi a'u dileu cyhyd â phosibl.

Roedd yr ystafell wedi cael ei threfnu i ddarparu holl feysydd y cyfnod sylfaen, gydag ardaloedd i'r plant chwarae mewn gwahanol ffyrdd megis ardal gwneud marciau, cornel ddarllen, ardal fathemateg ac ardal chwarae rôl. Roedd teganau ac adnoddau'n cael eu storio o fewn cyrraedd y plant. Roedd grisiau ar gael i'r plant gyrraedd y toiledau a'r sinciau'n annibynnol. Roedd yr ardal awyr agored yn gaeedig ac roedd amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ar gael. Roedd teganau reidio, cafn tywod, bwrdd sialc, teganau cydbwysedd, ffrâm ddringo a sleidiau ar gael i'r plant. Roedd y plant yn gallu defnyddio'r ardal ym mhob twydd gan fod llawr glaswelltog ffug wedi'i osod sy'n addas ar gyfer pob tywydd.

Roedd amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant, megis deunyddiau creadigol, deunyddiau synhwyraidd, teganau chwarae rôl a theganau byd bach, a oedd yn briodol i'w hoedran. Roedd teganau diwylliannol a theganau cyfle cyfartal ar gael i'r plant, ac roeddent yn eu defnyddio bob dydd. Roedd adnoddau eraill yn cael eu defnyddio wrth edrych ar thema neu stori benodol. Roedd y teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mewn cyflwr da.

## 4. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau a gwiriadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth, ac mae systemau ar waith i adolygu ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt. Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben ar waith a oedd yn fanwl ac yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol gan y staff fel rhan o'u harferion beunyddiol. Er enghraifft, roedd y staff yn dilyn y dulliau a amlinellwyd ym mholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth drwy gydol ein hymweliad. Ymysg y polisïau newydd roedd polisi asthma a choronafeirws.

Gwnaeth yr arweinwyr adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol a llunio adroddiad. Gwnaethant ddadansoddi'r sylwadau a gawsant gan y rhieni ym mhob maes ac roeddent yn awyddus i wella eu gwasanaeth. Er enghraifft, roedd yr arweinwyr wedi gosod arwynebedd llawr sy'n addas ar gyfer pob tywydd yn yr ardal awyr agored gan sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio'r ardal bob dydd. Roedd yr holiaduron rhieni yn gadarnhaol; roeddent yn hoff iawn o dderbyn tystiolaeth ffotograffig o weithgareddau eu plant yn y gwasanaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl ddogfennau perthnasol ganddynt ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd cofnodion yn cael eu cadw ohonynt. Nodwyd bod angen datblygu anghenion y staff o ran hyfforddiant.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Roeddent yn fodlon ar y wybodaeth a gafwyd cyn i'w plentyn ddechrau yn y gwasanaeth, ynghyd â gwybodaeth a gafwyd am gynnydd eu plentyn. Dywedodd y rhieni eu bod yn hapus iawn â'r system llogi llyfrau a ddarperir gan y gwasanaeth a oedd yn galluogi'r plant i'w darllen gartref. Roedd y staff yn trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgolion bwydo bob tymor am y plant sy'n pontio i'r ysgolion.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach.

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 16 Mawrth 2020 am gyfnod o 4 awr.
- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a digwyddiadau a chofnodion cynllunio.
- Gwnaethom arsylwi ar y plant gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff.
- Gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb, y staff, y rhieni a'r plant.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Emma Davies |
| Person â chyfrifoldeb | Caroline Williams |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 20 |
| Ystod oedran y plant | 2.5-5 oed |
| Oriau agor | Rhwng 9am a 12.30pm ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Medi 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 16 Mawrth 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/08/2020